**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif

28 Gorffennaf 2023

Annwyl Jane,

Strategaeth Ddrafft Tlodi Plant Cymru 2023 Llywodraeth Cymru

Yn ein cyfarfod ar 10 Gorffennaf, cytunodd y Pwyllgor i lansio ymchwiliad byr ar Strategaeth Ddrafft Tlodi Plant Cymru 2023. Nodwn eich bod ar hyn o bryd yn ymgynghori ar y Strategaeth Ddrafft, ac roeddem am fachu ar y cyfle i gasglu tystiolaeth gyda golwg ar ddylanwadu ar y strategaeth derfynol.

Rydym yn bwriadu gwneud y gwaith hwn ar y dyddiadau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 25 Medi | Tri phanel i glywed tystiolaeth lafar gan dystion |
| 2 Hydref | Digwyddiad grŵp trafod gyda rhanddeiliaid yng Nghaerdydd |
| 9 Hydref | Ymweliadau ag elusennau gwrth-dlodi plant ym Mae Abertawe. |

Nodwn y bydd yr ymgynghoriad ffurfiol yn dod i ben ym mis Medi. Yn anffodus, oherwydd ymrwymiadau blaenorol, ni fydd yn bosibl i ni wneud ein gwaith arfaethedig yn gynharach na'r dyddiadau a nodir uchod. Byddem yn ddiolchgar pe gallech nodi a fyddai canfyddiadau'r Pwyllgor yn dal i gael eu hystyried pe baem yn eu cyflwyno erbyn diwedd mis Hydref.

Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer ein gwaith wedi'i nodi yn yr atodiad. O gofio nad yw'r manylion hyn wedi'u cyhoeddi eto, byddwn yn ddiolchgar pe gallech drin y llythyr hwn yn gyfrinachol nes y caiff yr ymchwiliad ei lansio.

Yn gywir,

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

## Atodiad

Hoffai'r Pwyllgor ddylanwadu ar y gwaith o ddatblygu'r strategaeth derfynol, drwy ystyried:

- I ba raddau y bydd y strategaeth ddrafft yn cefnogi Llywodraeth Cymru a'i sefydliadau partner i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl ganddynt tuag at leihau tlodi plant o fewn ffiniau'r setliad datganoli.
- Pa arfer gorau sy'n bodoli yng Nghymru a thu hwnt wrth fynd i'r afael â thlodi plant, a pham mae'r ymyriadau hyn yn gweithio. I ba raddau mae'r dull a amlinellir yn y strategaeth yn cyd-fynd â hyn.
- Pa rwystrau sy'n bodoli i weithredu atebion sy'n mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru yn llwyddiannus, a sut y gellir goresgyn y rhain.
- Pa ddangosyddion y dylid eu defnyddio i fesur cynnydd wrth fynd i'r afael â thlodi plant. Pa dargedau penodol a mesuradwy y dylid eu gosod i asesu hyn.
- Pa mor effeithiol fydd y strategaeth wrth fynd i'r afael â thlodi plant o fewn grwpiau penodol o'r boblogaeth.
- I ba raddau y mae hawliau plant yn cael sylw clir yn y strategaeth a'r asesiad effaith.